**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 3764 (Cy.312)

# TRAFNIDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Consesiynau Teithio Gorfodol (Trefniadau Ad-dalu) (Cymru) 2001

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 145 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 ("y Ddeddf") yn darparu ar gyfer consesiynau teithio gorfodol i'w rhoi gan weithredwyr gwasanaethau cymwys (gwasanaethau bysiau lleol ar hyn o bryd) i rai dosbarthiadau o deithwyr, gan gynnwys rhai sy'n hen neu'n anabl. Daw'r darpariaethau hyn i rym yng Nghymru ar 1 Ebrill 2002.

O dan adran 149 o'r Ddeddf mae'n rhaid i awdurdodau consesiynau teithio (cynghorau sir a bwrdeistrefi sirol) ad-dalu i weithredwyr am ddarparu'r consesiynau yn unol â threfniadau sydd wedi'u cytuno gyda'r gweithredwyr neu sydd wedi'u penderfynu gan yr awdurdodau.

Gwnaed y Rheoliadau hyn o dan adrannau 149(3) a 150(6) o'r Ddeddf, sy'n rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") y pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas â'r cyfryw drefniadau, modd o wneud taliadau ad-dalu i weithredwyr a cheisiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol gan weithredwyr sy'n credu y gallant gael eu heffeithio'n niweidiol gan drefniadau ad-dalu arfaethedig.

Mae rheoliad 3 yn gosod y nod sylfaenol ar gyfer trefniadau ad-dalu, sef na ddylai gweithredwyr fod ar eu helw nac ar eu colled yn ariannol o ganlyniad i ddarparu consesiynau teithio gorfodol.

Mae rheoliad 4 yn ei gwneud hi'n ofynnol i daliadau ad-dalu ateb y costau a dynnir gan weithredwyr oherwydd rhoi consesiynau teithio gorfodol ac yn diffinio'r costau hynny.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 3764 (W.312)

# TRANSPORT, WALES

## The Mandatory Travel Concessions (Reimbursement Arrangements) (Wales) Regulations 2001

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Section 145 of the Transport Act 2000 ("the Act") provides for mandatory travel concessions to be provided by operators of eligible services (at present local bus services) to certain classes of passenger, including those who are elderly or disabled. These provisions come into force in Wales on 1 April 2002.

Section 149 of the Act requires travel concession authorities (county and county borough councils) to reimburse operators for providing the concessions in accordance with arrangements agreed with the operators or determined by the authorities.

These Regulations are made under sections 149(3) and 150(6) of the Act, which give the National Assembly for Wales ("the National Assembly") the power to make regulations with respect to such arrangements, the manner of making reimbursement payments to operators and applications to the National Assembly by operators who consider that they may be prejudicially affected by proposed reimbursement arrangements.

Regulation 3 sets the overall objective for reimbursement arrangements, namely that operators should not be financially better or worse off as a result of providing mandatory travel concessions.

Regulation 4 requires that reimbursement payments must meet the costs incurred by operators in providing mandatory travel concessions and defines those costs.

Mae rheoliad 5 yn darparu ar gyfer y cyfnodau y cyfrifir taliadau mewn perthynas â hwy a'r dyddiadau pryd y bydd rhaid gwneud taliadau.

Regulation 5 makes provision for the periods in respect of which payments are to be calculated and the dates when they must be made.

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau fabwysiadu dull safonol ar gyfer darganfod nifer y siwrneiau a wneir gan y rhai sydd â'r hawl i gonsesiynau a gwerth y tocynnau sydd i'w priodoli i'r siwrneiau hynny. Mae rheoliad 7 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau adolygu'r cyfrifiadau a wneir yn unol â'r dull safonol o leiaf unwaith pob tair blynedd.

Regulation 6 requires authorities to adopt a standard method for determining the total number of journeys made by those entitled to the concessions and the fares values to be attributed to those journeys. Regulation 7 requires authorities to review the calculations made in accordance with the standard method at least once every three years.

Mae rheoliad 6(6) yn caniatáu i awdurdodau, gyda chymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol, i sefydlu meini prawf ar gyfer esemtio gweithredwyr (er enghraifft rhai sy'n darparu gwasanaethau cyfyngedig iawn) o'r dull safonol, os yw'r gweithredwyr dan sylw yn cytuno, gyda'r bwriad o osgoi rhoi baich gweinyddol neu ariannol afresymol arnynt.

Regulation 6(6) permits authorities, with the approval of the National Assembly, to establish criteria for exempting operators (for example those operating very limited services) from the standard method, providing the operators in question agree, in the interests of avoiding placing an unreasonable administrative or financial burden on them.

Mae rheoliad 8 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau, wrth fabwysiadu'r dull safonol ac wrth gyfrifo taliadau ad-dalu yn unol â'r dull hwnnw, dalu sylw i ganllawiau a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Regulation 8 requires authorities, when adopting the standard method and when calculating reimbursement payments in accordance with that method, to have regard to guidance given by the National Assembly.

Mae rheoliadau 9 i 17 yn darparu ar gyfer gwybodaeth y gellir gofyn i weithredwyr ei ddarparu o dan drefniadau ad-dalu a sut y gellir ei defnyddio gan awdurdodau. Os bydd awdurdod yn ei gwneud hi'n ofynnol i weithredwyr osod cyfarpar tocynnu i gyd-ymffufio â manyleb perthnasol, mae rheoliad 16 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod ysgwyddo'r gost o'i ddarparu a'i osod.

Regulations 9 to 17 make provision for information which operators may be required to provide under reimbursement arrangements and how it may be used by authorities. If an authority requires operators to instal ticketting equipment to a particular specification, regulation 16 requires the authority to bear the cost of providing and installing it.

Mae rheoliad 18 yn gwahardd awdurdodau rhag cyflogi fel asiant ar gyfer gweinyddu trefniadau ad-dalu unrhyw un sy'n dal trwydded PSV.

Regulation 18 prohibits the employment of a holder of a PSV operator's licence by authorities as agents for administering reimbursment arrangements.

Mae rheoliad 19 yn gwahardd darpariaethau mewn trefniadau a fyddai'n gorfodi gweithredydd i newid y dull o ddarparu'r gwasanaeth, gan eithrio'r rhai hynny sy'n ofynnol er mwyn rhoi effaith i Ran II o'r Rheoliadau.

Regulation 19 prohibits provisions in arrangements which would require the operator to alter the manner in which the service is provided, other than those required to give effect to Part II of the Regulations.

Mae rheoliadau 21 i 32 yn darparu'r gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd gweithredydd yn gwneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol am addasiad i drefniadau ad-dalu arfaethedig ar y sail bod y gweithredydd yn credu y gall gael ei effeithio'n niweidiol ganddynt.

Regulations 21 to 32 provide the procedures to be followed when an operator applies to the National Assembly for a modification to proposed reimbursement arrangements on the grounds that the operator considers that it may be prejudicially affected by the proposals.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 3764 (Cy.312)

# TRAFNIDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Consesiynau Teithio Gorfodol (Trefniadau Ad-dalu) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *22 Tachwedd 2001* |
| *Yn dod i rym* | *30 Tachwedd 2001* |

**TREFN Y RHEOLIADAU**


Rhan I

CYFFREDINOL

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli

Rhan II

TREFNIADAU RHWNG GWEITHREDWYR AC AWDURDODAU

3. Yr amcan cyffredinol mewn perthynas â phob gweithredydd
4. Llunio trefniadau ad-dalu
5. Dull gwneud taliadau ad-dalu
6. Dull safonol ar gyfer darganfod nifer y siwrneiau, a gwerth y tocynnau ar eu cyfer
7. Adolygu cyfrifiadau'r dull safonol
8. Cyfrifo ad-daliadau
9. Cymhwyso rheoliadau 10 i 17
10. Defnyddio gwybodaeth a roddir gan weithredwyr
11. Gwahardd gofyn am wybodaeth benodol
12. Cyfyngu ar ofyn am wybodaeth benodol
13. Esemptio gweithredwyr penodol rhag rhoi gwybodaeth
14. Amlder rhoi gwybodaeth benodol
15. Arolygon mewn gwasanaethau


STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 3764 (W.312)

# TRANSPORT, WALES

## The Mandatory Travel Concessions (Reimbursement Arrangements) (Wales) Regulations 2001

| | |
|---|---|
| *Made* | *22 November 2001* |
| *Coming into force* | *30 November 2001* |

**ARRANGEMENT OF REGULATIONS**


Part I

GENERAL

1. Citation commencement and application
2. Interpretation

Part II

ARRANGEMENTS BETWEEN OPERATORS AND AUTHORITIES

3. General objective with respect to all operators
4. Formulation of reimbursement arrangements
5. Manner of making reimbursement payments
6. Standard method of determining number of, and fares value of, journeys
7. Review of standard method calculation
8. Calculation of reimbursement payments
9. Application of regulations 10 to 17
10. Use of information supplied by operators
11. Prohibition of requirements of certain information
12. Limitation on requirements for certain information
13. Exemption of certain operators from supplying information
14. Frequency of supply of certain information
15. Surveys in services

16. Gosod offer a'u defnyddio
17. Newidiadau mewn gwasanaethau a phrisiau tocynnau
18. Cyflogi asiantau gweinyddu
19. Cyfyngiad cyffredinol ar ymyrryd â dull darparu gwasanaethau

Rhan III

CEISIADAU I'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL

20. Cymhwyso rheoliadau 21 i 32
21. Cynnwys hysbysiadau
22. Cyflwyno hysbysiadau
23. Datganiad ysgrifenedig y ceisydd
24. Datganiad ysgrifenedig yr awdurdod
25. Datganiadau ysgrifenedig a dogfennau pellach
26. Gwrandawiadau ac ymddangosiadau
27. Methiannau wrth gyflwyno datganiadau neu ddogfennau neu wrth ymddangos
28. Y weithdrefn mewn gwrandawiadau
29. Dyfarniadau gan y Cynulliad Cenedlaethol
30. Cyfyngu ar ddefnyddio gwybodaeth mewn cysylltiad â gwrandawiadau
31. Ceisiadau gwacsaw neu flinderus
32. Cymhwyso rheoliadau 23 i 25, 27 i 29 a 31 at enwebai'r Cynulliad Cenedlaethol

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 149(3) a 150(6) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000(**a**) ("y Ddeddf") a phob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y rheoliadau canlynol:

Rhan I

CYFFREDINOL

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Consesiynau Teithio Gorfodol (Trefniadau Ad-dalu) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 30 Tachwedd 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Dehongli**

**2.**-(1) Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw awdurdod consesiynau teithio fel y'i dehonglir yn unol ag adran

(a) 2000 p.38

16. Installation and use of equipment
17. Changes in services and fares
18. Employment of administering agents
19. General restriction on interference with the manner of providing services

Part III

APPLICATIONS TO THE NATIONAL ASSEMBLY

20. Application of regulations 21 to 32
21. Content of notices
22. Service of notices
23. Applicant's written statement
24. Authority's written statement
25. Further written statements and documents
26. Hearings and appearances
27. Defaults in delivery of statements or documents or in appearing
28. Procedure at hearings
29. Decisions by the National Assembly
30. Restriction on use of information in connection with hearings
31. Frivolous or vexatious applications
32. Application of regulations 23 to 25, 27 to 29 and 31 to nominee of the National Assembly

The National Assembly for Wales ("the National Assembly"), in exercise of the powers conferred by sections 149(3) and 150(6) of the Transport Act 2000(**a**) ("the Act") and of all other enabling powers, hereby makes the following regulations:

Part I

GENERAL

**Citation commencement and application**

**1.**-(1) These Regulations may be cited as the Mandatory Travel Concessions (Reimbursement Arrangements) (Wales) Regulations 2001 and come into force on 30 November 2001.

(2) These Regulations apply to Wales.

**Interpretation**

**2.**-(1) In these Regulations-

"applicant" ("*ceisydd*") means a person making an

(a) 2000 c.38

146 o'r Ddeddf;

ystyr "ceisydd" ("*applicant*") yw person sy'n gwneud cais y mae rheoliadau 21 i 32 yn gymwys iddynt;

ystyr "consesiynau teithio gorfodol" ("*mandatory travel concessions*") yw consesiynau teithio sy'n cael eu darparu neu sydd i'w darparu o dan adran 145(1) o'r Ddeddf;

ystyr "costau gweithredu sylfaenol" ("*basic operating costs*") yw'r costau y byddai'r gweithredydd yn eu tynnu wrth ddarparu gwasanaeth pe na bai'r consesiynau'n cael eu darparu ar y gwasanaeth hwnnw;

ystyr "cyfnod talu" ("*payment period*") yw'r cyfnod y mae taliad ad-dalu yn ymwneud ag ef;

ystyr "diwrnod talu" ("*payment day*") yw unrhyw ddiwrnod pryd y mae ad-daliad i fod i gael ei wneud;

ystyr "dull safonol" ("*standard method*") yw'r dull ar gyfer cyfrifo swm y taliadau ad-dalu sy'n ddyledus i weithredwyr sy'n darparu consesiynau teithio gorfodol a fabwysiedir gan awdurdod yn unol â rheoliad 6(1);

dehonglir "gwasanaethau cymwys" ("*eligible services*") yn unol ag adran 146 o'r Ddeddf;

ystyr "gweithredydd" ("*operator*") yw gweithredydd sy'n darparu consesiynau teithio gorfodol ac mae'n cynnwys unrhyw berson sy'n ddarpar weithredydd o'r fath;

ystyr "gwerth tocynnau teithio" ("*fares value*"), mewn perthynas â siwrneiau, yw'r cyfanswm a fyddai wedi'i dalu am y tocynnau teithio pe na bai consesiynau wedi'u darparu;

ystyr "taliad ad-dalu" ("*reimbursement payment*") yw unrhyw daliad sydd i'w wneud yn unol ag adran 149(1) o'r Ddeddf;

mae "trefniadau ad-dalu" ("*reimbursement arrangements*") yn cynnwys amodau hawl gweithredwyr i gael ad-daliadau o dan adran 149(1) o'r Ddeddf mewn perthynas â chonsesiynau teithio gorfodol, a dull penderfynu a thalu'r rheiny.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at y dyddiad y rhoddir hysbysiad, mewn perthynas â hysbysiadau a anfonir drwy'r post, yn gyfeiriadau at y dyddiad y bernir bod yr hysbysiad wedi dod i law yn y cyfeiriad yr anfonwyd ef iddo, yn unol â rheoliad 22(2).

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn ac eithrio lle darperir fel arall.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at amcangyfrifon neu gyfrifiadau a wneir gan awdurdod mewn perthynas ag ad-daliadau yn gyfeiriad at

application to which regulations 21 to 32 apply;

"authority" ("*awdurdod*") means a travel concession authority as construed in accordance with section 146 of the Act;

"basic operating costs" ("*costau gweithredu safonol*") means the costs which the operator would incur in providing a service if the concessions were not provided on that service;

"eligible services" ("*gwasanaethau cymwys*") is to be construed in accordance with section 146 of the Act;

"fares value" ("*gwerth tocynnau teithio*"), in relation to journeys, means the aggregate amount of the fares which would have been paid if concessions had not been provided;

"mandatory travel concessions" ("*consesiynau teithio gorfodol*") means travel concessions provided or to be provided under section 145(1) of the Act;

"operator" ("*gweithredydd*") means an operator who provides mandatory travel concessions and includes any person who is prospectively such an operator;

"payment day" ("*diwrnod talu*") means any day on which a reimbursement payment is due to be made;

"payment period"("*cyfnod talu*") means the period to which a reimbursement payment relates;

"reimbursement arrangements" ("*trefniadau ad-dalu*") includes the conditions of entitlement of operators to, and the method of determination and manner of payment of, reimbursement under section 149(1) of the Act in respect of mandatory travel concessions;

"reimbursement payment" ("*taliad ad-daliad*") means any payment falling to be made in accordance with section 149(1) of the Act;

"standard method" ("*dull safonol*") means the method for calculating the amount of reimbursement payments due to operators providing mandatory travel concessions adopted by an authority in accordance with regulation 6(1);

(2) References in these Regulations to the date on which a notice is given are, in relation to notices sent by post, references to the date on which the notice is, in accordance with regulation 22(2), deemed to be received at the address to which it is sent.

(3) Any reference in these Regulations to a numbered regulation or Schedule is a reference to the regulation or Schedule bearing that number in these Regulations except where otherwise expressly provided.

(4) Any reference in these Regulations to estimates or calculations made by an authority in relation to reimbursement payments is a reference to estimates or

amcangyfrifon neu gyfrifiadau a wneir drwy gyfrwng y dull ymarferol gorau sydd ar gael i'r awdurdod.

Rhan II

TREFNIADAU RHWNG GWEITHREDWYR AC AWDURDODAU

**Yr amcan cyffredinol mewn perthynas â phob gweithredydd**

**3**. Un o amcanion (ond nid un o ddyletswyddau) awdurdod wrth lunio trefniadau ad-dalu fydd darparu nad yw gweithredwyr, fel unigolion na chyda'i gilydd, yn well nac yn waeth eu byd yn sgîl y consesiynau teithio gorfodol a ddarperir ganddynt.

**Llunio trefniadau ad-dalu**

**4**.-(1) Yn ddarostyngedig i reoliadau 3 a 8, ac i baragraff (2) o'r rheoliad hwn, rhaid i'r trefniadau ad-dalu a fabwysiedir gan awdurdod cael eu llunio fel bod costau gweithredwyr wrth ddarparu consesiynau teithio gorfodol yn cael eu talu drwy'r taliadau a wneir gan yr awdurdod i'r gweithredwyr yn unol ag adran 149(1) o'r Ddeddf.

(2) Ym mharagraff (1) o'r rheoliad hwn, mae cyfeiriad at gostau gweithredwyr wrth ddarparu consesiynau teithio gorfodol yn gyfeiriad at gyfanswm y canlynol -

(a) y refeniw, drwy gyfrwng prisiau tocynnau, y mae'r awdurdod yn cyfrifo bod y gweithredydd wedi mynd hebddynt neu yn amcangyfrif y bydd yn mynd hebddynt yn sgîl darparu'r consesiynau teithio gorfodol o dan sylw, llai unrhyw refeniw ychwanegol o brisiau tocynnau y mae'r awdurdod yn amcangyfrif bod y gweithredydd wedi'i gael neu y bydd yn ei gael am fod y consesiynau hynny ar gael; a

(b) unrhyw gostau sy'n ychwanegol at y costau gweithredu sylfaenol y mae'r awdurdod yn cyfrifo bod y gweithredydd wedi gorfod eu tynnu neu y bydd yn gorfod eu tynnu mewn cysylltiad â darparu consesiynau teithio gorfodol, llai unrhyw ostyngiad yn y costau gweithredu sylfaenol y mae'r awdurdod yn amcangyfrif bod y gweithredydd wedi'i sicrhau neu y bydd yn ei sicrhau am fod y consesiynau hynny ar gael.

**Dull gwneud taliadau ad-dalu**

**5**.-(1) Pennir y cyfnodau talu a'r diwrnodau talu yn y trefniadau ad-dalu ac -

(a) rhaid i'r cyfnodau talu beidio â bod yn hirach na thri mis, neu mewn perthynas â gweithredydd neu, weithredwyr arbennig, y cyfryw gyfnod byrrach a gaiff ei gytuno yn ysgrifenedig rhwng yr awdurdod a'r gweithredydd hwnnw neu'r gweithredwyr hynny; a

calculations made by the best practical method available to the authority.

Part II

ARRANGEMENTS BETWEEN OPERATORS AND AUTHORITIES

**General objective with respect to all operators**

**3**. It is to be an objective (but not a duty) of an authority when formulating reimbursement arrangements to provide that operators both individually and in the aggregate are financially no better and no worse off as a result of their provision of mandatory travel concessions.

**Formulation of reimbursement arrangements**

**4**.-(1) Subject to regulations 3 and 8, and to paragraph (2) of this regulation, reimbursement arrangements adopted by an authority must be so formulated that the costs to operators of providing mandatory travel concessions are met by the payments made by the authority to operators pursuant to section 149(1) of the Act.

(2) In paragraph (1) of this regulation, the reference to the costs to operators of providing mandatory travel concessions is a reference to the aggregate of-

(a) the revenue by way of fares which the authority calculate that the operator has foregone or estimate that the operator will forego in consequence of the provision of the mandatory travel concessions in question, less any additional revenue from fares which the authority estimates the operator has received or will receive by reason of the availability of those concessions; and

(b) any costs additional to basic operating costs which the authority calculates that the operator has necessarily incurred or will necessarily incur in connection with providing mandatory travel concessions, less any reduction in basic operating costs which the authority estimates that the operator has achieved or will achieve by reason of the availability of those concessions.

**Manner of making reimbursement arrangements**

**5**.-(1) The payment periods and payment days are to be specified in the reimbursement arrangements and-

(a) payment periods must not be longer than 3 months or, in relation to a particular operator or particular operators, such shorter period as the authority may agree in writing with that operator or those operators ; and

(b) mewn perthynas â phob cyfnod talu, rhaid i'r diwrnod talu beidio â bod yn hwyrach na'r diwrnod sydd hanner ffordd rhwng diwrnod cyntaf a diwrnod olaf y cyfnod talu neu, mewn perthynas â gweithredydd neu weithredwyr arbennig, y cyfryw ddiwrnod ac a gaiff ei gytuno yn ysgrifenedig rhwng yr awdurdod a'r gweithredydd hwnnw neu'r gweithredwyr hynny (ac, wrth ddarganfod y diwrnod talu, rhaid peidio â rhoi sylw i hanner diwrnodau).

(2) Rhaid i bob taliad ad-dalu beidio â bod yn llai nag 85% o'r swm y mae'r awdurdod yn amcangyfrif ei fod yn ddyledus i'r gweithredydd mewn perthynas â'r cyfnod talu perthnasol.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (9) o'r rheoliad hwn, rhaid i falans pob taliad ad-dalu gael ei dalu, yn ddarostyngedig i unrhyw addasiadau y dangosir eu bod yn angenrheidiol yng ngoleuni'r wybodaeth sydd ar gael i'r awdurdod yn unol â'r trefniadau sy'n rhoi'r Rheoliadau hyn ar waith, heb fod yn hwyrach na thri mis ar ôl diwrnod y cyfnod talu perthnasol.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (6) o'r rheoliad hwn, os na chaiff unrhyw falans a grybwyllir ym mharagraff (3) o'r rheoliad hwn ei dalu yn unol â'r paragraff hwnnw, rhaid gwneud darpariaeth i'r awdurdod dalu llog syml (yn ôl cyfradd o 1% ar ben y cyfradd sylfaenol) ar y swm sydd heb ei dalu am y tro am y cyfnod sy'n dechrau â'r dyddiad olaf pryd y dylai'r balans fod wedi'i dalu yn unol â pharagraff (3) ac yn diweddu â dyddiad y taliad ei hun.

(5) At ddibenion paragraff (4) o'r rheoliad hwn:

(a) ystyr "cyfradd sylfaenol" ("*base rate*") yw'r gyfradd sylfaenol a osodir gan y banciau cyfeiriol ac sy'n cael effaith trwy gydol y cyfnod a ragnodir yn y paragraff hwnnw neu, os oes mwy nag un cyfradd sylfaenol yn cael effaith yn ystod y cyfnod hwnnw, cyfartaledd y cyfraddau hynny;

(b) os osodir cyfraddau sylfaenol gwahanol gan fanciau cyfeiriol gwhanol mewn perthynas â diwrnod arbennig, y gyfradd sylfaenol ar y diwrnod hwnnw at ddibenion is-baragraff (a) yw'r gyfradd sydd, pan restrir y cyfraddau a osodir gan pob banc cyfeiriol mewn dilyniant disgynnol o saith, yn bedwaredd yn y dilyniant;

(c) at ddibenion y paragraff hwn, ystyr "banciau cyfeiriol" ("*reference banks*"), mewn perthynas â diwrnod arbennig, yw'r saith sefydliad mwyaf (trwy gyfeirio at werth eu hasedau) a awdurdodwyd o dan Ddeddf Bancio 1987 neu unrhyw ail-gyflawni deddfwriaethol o'r Ddeddf honno ac sydd wedi'i ymgorffori ac yn cynnal busnes derbyn adneuon yn y Deyrnas Gyfunol ac sydd yn gosod cyfradd sylfaenol.

(b) in relation to each payment period, the payment day must not be later than the day which is half way between the first and last days of the payment period or, in relation to a particular operator or particular operators, such day as the authority may agree in writing with that operator or those operators (and, in ascertaining the payment day, no account is to be taken of half days).

(2) Each reimbursement payment must not be less than 85% of the amount estimated by the authority to be due to the operator in respect of the relevant payment period.

(3) Subject to paragraph (9) of this regulation, the balance of each reimbursement payment must be paid, subject to any adjustments shown to be necessary in the light of information available to the authority pursuant to arrangements giving effect to these Regulations, not later than 3 months after the end of the relevant payment period.

(4) Subject to paragraph (6) of this regulation, if any such balance as is mentioned in paragraph (3) of this regulation is not paid in accordance with that paragraph, provision must be made for the authority to pay simple interest (at a rate of base rate plus 1%) on the amount for the time being unpaid for the period beginning with the last date on which the balance should have been paid in accordance with paragraph (3) and ending with the date of actual payment.

(5) For the purposes of paragraph (4) of this regulation:

(a) "base rate" ("*cyfradd sylfaenol*") means the base rate quoted by the reference banks and effective throughout the period specified in that paragraph or, if more than one base rate is effective during that period, the average of those rates;

(b) if different base rates are quoted by different reference banks in relation to a particular day, the base rate for that day for the purpose of sub-paragraph (a) is the rate which, when the base rate quoted by each reference bank is ranked in a descending sequence of seven, is fourth in the sequence;

(c) for the purpose of this paragraph, "reference banks" ("*banciau cyfeiriol*") means, in relation to a particular day, the seven largest institutions (by reference to the value of their assests) authorised under the Banking Act 1987 or any statutory re-enactment of that Act and incorporated in and carrying on a deposit-taking business in the United Kingdom and which quote a base rate.

(6) Ni fydd llog yn daladwy nes bod yr hawl i gael consesiynau teithio gorfodol o dan adran 145(1) o'r Ddeddf wedi bod mewn grym am chwe mis nac mewn perthynas ag unrhyw gyfnod sy'n syrthio yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y chwe mis cyntaf ar ôl i'r hawl honno ddod i rym.

(6) Interest is not be payable until the entitlement to mandatory travel concessions under section 145(1) of the Act has been in force for 6 months nor in respect of any period falling wholly or partly within the first 6 months after that entitlement comes into force.

(7) Os yw swm unrhyw daliad ad-dalu a wneir yn unol â pharagraff (2) o'r rheoliad hwn mewn perthynas ag unrhyw gyfnod talu yn fwy na chyfanswm y taliad y ceir ei fod yn daladwy mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw, rhaid gwneud darpariaeth i'r awdurdod hysbysu'r gweithredydd yn unol â hynny yn ysgrifenedig ac wedi hynny caiff yr awdurdod dynnu swm y gormodedd oddi ar y taliadau ad-dalu sy'n ddyledus i'r gweithredydd hwnnw mewn perthynas ag unrhyw gyfnod talu dilynol.

(7) If the amount of any reimbursement payment made in accordance with paragraph (2) of this regulation in respect of any payment period exceeds the total amount of the payment found to be payable in respect of that period, provision must be made for the authority to notify the operator in writing accordingly and the authority may thereafter deduct the amount of the excess from the reimbursement payments due to that operator in respect of any subsequent payment period.

(8) Os yw'r amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff (7) o'r rheoliad hwn yn codi mewn perthynas â pherson nad yw'n weithredydd mwyach, rhaid i'r awdurdod hysbysu'r person hwnnw yn unol â hynny ac, oni bai bod y person hwnnw'n dadlau yn erbyn bodolaeth neu swm y gormodedd, rhaid i'r person hwnnw dalu swm y gormodedd i'r awdurdod o fewn 30 diwrnod o'r dyddiad y daw'r hysbysiad i law.

(8) If the circumstances described in paragraph (7) of this regulation arise in relation to a person who is no longer an operator, the authority must notify that person accordingly and, unless that person disputes the existence or amount of the excess, that person must pay the amount of the excess to the authority within 30 days of the date of receipt of the notification.

(9) Gall darpariaeth gael ei gwneud ar gyfer gwneud unrhyw ad-daliad sy'n ddyledus yn unol â pharagraffau (2) a (3) o'r rheoliad hwn heblaw yn unol â'r rheoliad hwn mewn unrhyw achos lle mae gweithredydd yn methu â rhoi gwybodaeth yn unol â'r trefniadau ad-dalu sy'n rhoi eu heffaith i'r Rheoliadau hyn -

(a) yn achos taliad sy'n ddyledus yn unol â pharagraff (2), mewn digon o bryd i ganiatáu i'r awdurdod ffurfio amcangyfrif rhesymol o swm y taliad; neu
(b) yn achos taliad sy'n ddyledus yn unol â pharagraff (3), mewn digon o bryd i ganiatáu i'r awdurdod gyfrifo swm y taliad.

(9) Provision may be made for any reimbursement payment due in accordance with paragraphs (2) and (3) of this regulation to be made otherwise than in accordance with this regulation in any case where an operator fails to supply information in accordance with reimbursement arrangements giving effect to these Regulations-

(a) in the case of a payment due in accordance with paragraph (2), in sufficient time to allow the authority to form a reasonable estimate of the amount of the payment; or
(b) in the case of a payment due in accordance with paragraph (3), in sufficient time to allow the authority to calculate the amount of the payment.

(10) Yn ddarostyngedig i baragraff (9) o'r rheoliad hwn, rhaid gwneud darpariaeth i unrhyw daliad ad-dalu neu i unrhyw ran o daliad o'r fath sy'n ddyledus i weithredydd yn unol â chonsesiynau gorfodol a ddarparwyd yn ystod unrhyw gyfnod o 12 mis yn dechrau ar ddyddiad a bennir yn y trefniadau ond sydd heb gael ei dalu i gael ei dalu heb fod yn hwyrach na 3 mis ar ôl i'r cyfnod hwnnw ddod i ben.

(10) Subject to paragraph (9) of this regulation, provision must be made for any reimbursement payment or any part of such a payment due to an operator in respect of mandatory concessions provided during any period of 12 months commencing on a date specified in the arrangements but not paid to be paid not later than 3 months after the expiry of that period.

**Dull safonol ar gyfer darganfod nifer y siwrneiau, a gwerth y tocynnau ar eu cyfer**

**6**.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (6) o'r rheoliad hwn, mewn perthynas â phob cynllun, rhaid i'r awdurdod fabwysiadu dull safonol i'w ddefnyddio, yn ddarostyngedig i reoliad (4), i benderfynu -

(a) cyfanswm y siwrneiau a wnaed gan bersonau â hawl i gael consesiynau teithio gorfodol ar wasanaethau gweithredwyr; a

**Standard method of determining number of, and fares value of, journeys**

**6**.-(1) Subject to paragraph (6) of this regulation, in relation to each scheme, the authority must adopt a standard method to be used, subject to regulation 4, in determining-

(a) the total number of the journeys made by persons entitled to be provided with mandatory travel concessions on the services of operators; and

(b) gwerth y tocynnau teithio sydd i'w briodoli i'r siwrneiau hynny.

(2) Rhaid i'r dull safonol ddarparu i'r awdurdod gymryd i ystyriaeth unrhyw ddata sy'n dangos bod dull creu'r data hwnnw yn gywirach na'r dull safonol.

(3) Os nad yw'r dull safonol yn darparu ar gyfer cofnodi pob siwrnai a grybwyllir ym mharagraff (1) o'r rheoliad hwn, caiff y dull hwnnw ddarparu ar gyfer -

(a) cyfrifo ffigurau ar gyfer cyfanswm y siwrneiau hynny a gwerth tocynnau teithio y siwrneiau hynny drwy unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau y mae'n ymddangos i'r awdurdod eu bod yn rhesymol; a

(b) os oes angen hynny, dyrannu'r nifer hwnnw a'r gwerth tocynnau teithio hwnnw rhwng pob gweithredydd y mae ad-daliadau i'w gwneud iddynt gan yr awdurdod o dan adran 149(1) o'r Ddeddf.

(4) Os yw symiau'r taliadau ad-dalu'n cael eu hamcangyfrif neu eu cyfrifo heblaw drwy gyfeirio at ddull safonol sy'n darparu ar gyfer cofnodi'r holl siwrneiau a grybwyllir ym mharagraff (1)(a) o'r rheoliad hwn, rhaid i'r amcangyfrifon neu'r cyfrifiadau (ond nid y dull safonol) gael eu haddasu os dangosir bod yr wybodaeth y cawsant eu seilio arni yn anghywir mewn unrhyw ffordd berthnasol.

(5) Caiff awdurdod neu weithredydd y mae ganddynt reswm dros gredu bod y dull safonol a ddefnyddir ganddynt yn amhriodol mewn perthynas ag unrhyw weithredydd penodol, ar eu cost a'u traul eu hunain, wneud darpariaeth ar gyfer cyfrifiad cywirach o gyfanswm a gwerth tocynnau teithio siwrneiau mewn perthynas â'r gweithredydd hwnnw.

(6) Os bernir gan awdurdod y byddai cymhwyso'r dull safonol, oherwydd natur neu faint y gwasanaethau y darperir consesiynau teithio gorfodol arnynt gan weithredydd neu weithredwyr arbennig, yn gosod baich gweinyddol neu ariannol afresymol ar y cyfryw weithredydd neu weithredwyr, gall y trefniadau ad-dalu sy'n perthyn iddynt gynnwys esemtiad o'r dull safonol mewn unrhyw achos lle bo'r awdurdod a'r gweithredydd yn cytuno felly ac os bydd pob un o'r amodau canlynol wedi'i fodloni -

(a) bod yr awdurdod wedi sefydlu ac wedi cyhoeddi meini prawf yr asesir hawl gweithredydd i gael ei esemtio o'r dull safonol trwy gyfeirio atynt;

(b) bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi rhoi cymeradwyaeth ysgrifenedig i'r meini prawf hynny;

(c) bod y gweithredydd neu'r gweithredwyr y cymhwysir yr esemtiad iddynt yn bodloni'r meini prawf hynny;

(ch) bod yr esemtiad yn cael ei gymhwyso gan yr

(b) the fares value to be attributed to those journeys.

(2) The standard method must provide for the authority to take into account any data which shows that the method by which such data was derived is more accurate than the standard method.

(3) Where the standard method does not provide for the recording of all such journeys as are mentioned in paragraph (1) of this regulation, that method may provide for-

(a) the calculation of figures for the total number and fares value of those journeys by any means or combination of means which appears to the authority to be reasonable; and

(b) if necessary, the apportionment of that number and fares value between all operators to whom reimbursement payments fall to be made by the authority under section 149(1) of the Act.

(4) Where the amounts of reimbursement payments are estimated or calculated otherwise than by reference to a standard method which provides for the recording of all the journeys mentioned in paragraph (1)(a) of this regulation, the estimates or calculations (but not the standard method) must be adjusted if the information upon which they were based is shown to be inaccurate in any material respect.

(5) An authority or an operator who have reason to believe that the standard method used by them is inappropriate in relation to any particular operator may, at their own cost and expense, make provision for a more accurate calculation of the total number and fares value of journeys in respect of that operator.

(6) If , in the opinion of an authority, application of the standard method would, by reason of the nature or extent of the services on which mandatory travel concessions are provided by a particular operator or operators, impose an unreasonable administrative or financial burden on such operator or operators, reimbursement arrangements relating to them may include an exemption from the standard method in any case where the authority and the operator so agree and each of the following conditions are satisfied-

(a) the authority have established and published criteria by reference to which the entitlement of an operator to exemption from the standard method is to be assessed;

(b) the National Assembly has given written approval to those criteria;

(c) the operator or operators to which the exemption is applied satisfy those criteria;

(d) the exemption is applied by the authority to all

awdurdod i'r holl weithredwyr eraill sydd â hawl i daliadau ad-dalu gan yr awdurdod hwnnw ac sydd ym marn yr awdurdod yn bodloni'r meini prawf hynny ac yn dymuno manteisio ar yr esemtiad.

**Adolygu cyfrifiadau'r dull safonol**

**7**. Rhaid gwneud darpariaeth i awdurdod adolygu'r cyfrifiadau a wneir yn unol â'r dull safonol nid llai nag unwaith pob tair blynedd.

**Cyfrifo ad-daliadau**

**8**. Pan fydd awdurdod yn mabwysiadu dull safonol yn unol â rheoliad 6 a phan fydd yn cyfrifo taliadau ad-daliadau yn unol â'r dull hwnnw, rhaid iddo dalu sylw at unrhyw ganllawiau a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodau yn gyffredinol neu i'r awdurdod arbennig hwnnw at ddibenion y rheoliad hwn.

**Cymhwyso rheoliadau 10 i 17**

**9**. Mae rheoliadau 10 i 17 yn gymwys i ddarpariaethau sydd i'w cynnwys neu (yn ôl fel y digwydd) a all gael neu na all gael eu cynnwys mewn trefniadau ad-dalu mewn perthynas â gweithredwyr.

**Defnyddio gwybodaeth a roddir gan weithredwyr**

**10**. Dim ond ar gyfer cyfrifo ac mewn cysylltiad â chyfrifo taliadau ad-dalu y gall unrhyw wybodaeth a roddir gan weithredydd i awdurdod yn unol â threfniadau sy'n rhoi eu heffaith i'r rheoliad hwn a rheoliadau 11 i 17 gael eu defnyddio, a rhaid i'r awdurdod beidio â datgelu'r wybodaeth honno ac eithrio -

(a) gyda chydsyniad ysgrifenedig y gweithredydd; neu

(b) i'r graddau y mae'r wybodaeth o dan sylw wedi dod yn wybodaeth gyhoeddus heblaw drwy weithred neu ddiffyg gweithred gan yr awdurdod.

**Gwahardd gofyn am wybodaeth benodol**

**11**. Ni ellir mynnu cael gwybodaeth am unrhyw un o'r pynciau canlynol -

(a) cyfanswm trosiant busnes, neu gyfanswm trosiant unrhyw ran o fusnes, gweithredydd; ac

(b) cyfradd flynyddol neu swm blynyddol elw neu golled y busnes hwnnw, neu unrhyw ran ohono.

**Cyfyngu ar ofyn am wybodaeth benodol**

**12**. - (1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i wybodaeth am y pynciau canlynol neu yn eu cylch -

other operators entitled to reimbursement payments from that authority who appear to the authority to satisfy those criteria and who wish to take advantage of the exemption.

**Review of standard method calculation**

**7**. Provision must be made for an authority to review the calculations made in accordance with the standard method not less than once every three years.

**Calculation of reimbursement payments**

**8**. When adopting the standard method in accordance with Regulation 6, and when calculating reimbursement payments in accordance with that method, an authority must have regard to any guidance given by the National Assembly to authorities generally or to that authority in particular for the purposes of this regulation.

**Application of Regulations 10 to 17**

**9**. Regulations 10 to 17 apply to the provisions that are to be or (as the case may be) may or may not be included in reimbursement arrangements with respect to operators.

**Use of information supplied by operators**

**10**. Any information supplied by an operator to an authority pursuant to arrangements giving effect to this regulation and regulations 11 to 17 may only be used for and in connection with the calculation of reimbursement payments and such information must not be disclosed by the authority except-

(a) with the consent in writing of the operator; or

(b) to the extent to which the information in question has become public knowledge otherwise than by the act or omission of the authority.

**Prohibition of requirements of certain information**

**11**. Information may not be required on any of the following subjects-

(a) the total turnover of the business, or of any part of the business, of an operator; and

(b) the annual rate or amount of the profit or loss of that business, or of any part of it.

**Limitation on requirements for certain information**

**12**.-(1) This regulation applies to information on or concerning the following subjects-

(a) cyfanswm y teithwyr o bob disgrifiad a gludwyd gan weithredydd ar wasanaethau y mae consesiynau teithio gorfodol yn cael eu darparu arnynt ar unrhyw adeg; a

(b) swm y prisiau tocynnau a gafodd y gweithredydd oddi wrth y teithwyr hynny.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) o'r rheoliad hwn, yr unig wybodaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi y gellir ei gwneud yn ofynnol i weithredydd ei rhoi yw gwybodaeth mewn perthynas â'r holl wasanaethau y mae'r gweithredydd hwnnw'n eu darparu ac y darperir consesiynau teithio gorfodol arnynt.

(3) Os oes trefniadau'n darparu ar gyfer rhannu ardal awdurdod consesiynau teithio yn wahanol rannau, gellir ei gwneud yn ofynnol i weithredydd roi'r wybodaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi mewn perthynas â phob rhan, ond nid os bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddatgelu niferoedd y teithwyr a gludwyd ar unrhyw wasanaeth penodol neu grŵp o wasanaethau a ddarparwyd ganddo neu (yn ôl fel y digwydd) swm y prisiau tocynnau a gafodd oddi wrth y teithwyr hynny.

(4) Gellir gwneud darpariaeth, mewn unrhyw achos lle rhoddir gwybodaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi yn unol â threfniadau sy'n rhoi ei effaith i'r rheoliad hwn, i'r wybodaeth gael ei rhoi ynghyd â thystysgrif ei bod yn gywir ac yn gyflawn, sef tystysgrif a roddir gan berson cyfrifol.

(5) Ym mharagraff (4) o'r rheoliad hwn ystyr "person cyfrifol" yw person sy'n aelod o un neu fwy o'r cyrff canlynol -

(a) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr;

(b) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban;

(c) Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig;

(ch) unrhyw gorff proffesiynol o gyfrifwyr a fydd wedi'i gymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr awdurdod at ddibenion y paragraff hwn.

(6) Os bydd awdurdod yn gofyn bod gwybodaeth yn cael ei rhoi ynghyd â thystysgrif gan berson cyfrifol yn unol â pharagraff (4) rhaid i unrhyw gost ychwanegol resymol a dynnir gan weithredydd oherwydd y gofyn hwnnw gael ei ad-dalu gan yr awdurdod ac i'r perwyl hwnnw bernir ei bod yn rhan o'r balans sy'n daladwy o dan Reoliad 5(3) mewn perthynas â'r cyfnod talu perthnasol y cyflenwyd yr awdurdod â manylion llawn y gost honno yn ei ystod.

(a) the total number of passengers of all descriptions carried by an operator on services on which mandatory travel concessions are at any time provided; and

(b) the amount of the fares received by the operator from such passengers.

(2) Subject to paragraph (3) of this regulation, an operator may only be required to supply information to which this regulation applies in relation to all the services which that operator provides and on which mandatory travel concessions are provided.

(3) Where arrangements provide for the division of the area of a travel concession authority into different parts, an operator may be required to supply information to which this regulation applies in relation to each part, but not if this will require him to disclose the numbers of passengers carried on any particular service or group of services provided by him or (as the case may be) the amount of the fares received by him from those passengers.

(4) Provision may be made, in any case where information to which this regulation applies is supplied in accordance with arrangements giving effect to this regulation, for the information to be accompanied by a certificate of its accuracy and completeness given by a responsible person.

(5) In paragraph (4) of this regulation "responsible person" means a person who is a member of one or more of the following bodies-

(a) the Institute of Chartered Accountants in England and Wales;

(b) the Institute of Chartered Accountants of Scotland;

(c) the Association of Chartered Certified Accountants;

(d) such other professional accountancy body as the authority may approve in writing for the purposes of this paragraph.

(6) If an authority requires information to be accompanied by a certificate of its accuracy and completeness supplied by a responsible person in accordance with paragraph (4) any reasonable additional expense incurred by an operator by reason of that requirement is to be re-imbursed by the authority and for that purpose is to be deemed to form part of the balance payable under regulation 5(3) in respect of the relevant payment period during which the authority was provided with full particulars of such expense.

**Esemptio gweithredwyr penodol rhag rhoi gwybodaeth**

**13**.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i weithredwyr y mae esemtiad o'r dull safonol yn cael ei gymhwyso iddynt o dan reoliad 6(6).

(2) Ni ellir ei gwneud yn ofynnol i weithredydd y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo roi unrhyw wybodaeth y mae rheoliad 12 yn gymwys iddi.

**Amlder rhoi gwybodaeth benodol**

**14**. Ni ellir ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth am unrhyw bwnc gael ei roi yn amlach nag unwaith ym mhob 28 diwrnod nac mewn perthynas â chyfnodau o lai nag 28 diwrnod.

**Arolygon mewn gwasanaethau**

**15**. Gall awdurdod ei gwneud yn ofynnol i weithredydd ganiatáu i swyddogion, gweision neu asiantau'r awdurdod gael mynd yn rhesymol o aml at gerbydau'r gweithredydd y darperir consesiynau teithio gorfodol arnynt at y dibenion canlynol (gan gynnwys yr hawl i deithio'n ddi-dâl arnynt) -

(a) arolygu neu gyfrif neu amcangyfrif nifer y teithwyr (yn gyffredinol neu o unrhyw ddisgrifiad penodol) a'r gwerthoedd tocynnau teithio sy'n briodol i'r teithwyr hynny; a

(b) sicrhau gwybodaeth am faterion eraill sy'n ymwneud â'r siwrneiau a wneir gan deithwyr y mae ganddynt hawl i gael consesiynau teithio gorfodol ac sy'n angenrheidiol er mwyn i'r awdurdod gyfrifo taliadau ad-dalu.

**Gosod offer a'u defnyddio**

**16**.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) o'r rheoliad hwn, gall awdurdod ei gwneud yn ofynnol i weithredydd gael offer yn ei gerbydau sy'n cyd-ymffurfio â manyleb a osodir gan yr awdurdod hwnnw er mwyn rhoi a dileu tocynnau neu gofnodi niferoedd a disgrifiadau teithwyr ar y cerbydau hynny fel arall yn ei gerbydau, a'u defnyddio.

(2) Yr awdurdod sydd i dalu costau a threuliau darparu a gosod unrhyw offer o'r fath.

(3) Heb ragfarnu rheoliad 12, ni ellir ei gwneud yn ofynnol, onibai fod y dull safonol yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyfrifo gwerthoedd tocynnau teithio cyfartalog ar gyfer yr holl deithwyr ac at ddibenion hynny'n unig, i weithredydd rhoi gwybodaeth i'r awdurdod sy'n deillio o ddefnyddio unrhyw offer o'r fath sy'n ymwneud â siwrneiau gan deithwyr nad oes ganddynt hawl i gael consesiynau teithio gorfodol.

(4) Gall awdurdod, mewn perthynas ag unrhyw gerbyd y mae consesiynau teithio gorfodol ar gael arno, ei wneud hi'n ofynnol, ar draul y gweithredydd,

**Exemption of certain operators from supplying information**

**13**.-(1) This regulation applies to operators in respect of whom an exemption from the standard method is being applied under regulation 6(6).

(2) An operator to whom this regulation applies may not be required to supply any information to which regulation 12 applies.

**Frequency of supply of certain information**

**14**. Information may not be required to be supplied more frequently than once in every 28 days nor in respect of periods of less than 28 days.

**Surveys in services**

**15.** An authority may require an operator to allow officers, servants or agents of that authority to have access with reasonable frequency to (including the right to travel free of charge on) the vehicles of the operator on which mandatory travel concessions are provided for the purpose of-

(a) surveying or counting or estimating the number of passengers (whether generally or of any particular description) and the fares values attributable to those passengers; and

(b) obtaining information on other matters relating to the journeys made by passengers who are entitled to be provided with mandatory travel concessions and necessary to the calculation by the authority of reimbursement payments.

**Installation and use of equipment**

**16**.-(1) Subject to paragraph (2) of this regulation, an authority may require an operator to have in its vehicles, and to use, equipment which complies with a specification laid down by that authority for the purpose of issuing and cancelling tickets or otherwise recording the numbers and descriptions of passengers on those vehicles.

(2) The costs and expense of providing and installing any such equipment are to be borne by the authority.

(3) Without prejudice to regulation 12, an operator may not, except where the standard method requires the calculation of average fares values in relation to all passengers and for that purpose alone, be required to supply to the authority information derived from the use of any such equipment and relating to journeys by passengers not entitled to be provided with mandatory travel concessions.

(4) An authority may, in relation to any vehicle on which mandatory travel concessions are being provided, require an operator to display on that vehicle,

i'r gweithredydd ddangos ar y cerbyd hwnnw arwydd sy'n gwneud y ffaith honno'n glir ac sy'n resymol ddarllendwy gan y rhai yn gyffredinol sy'n debyg o fod â hawl i'r consesiynau hynny.

at the operator's expense, a sign making that fact clear and which is reasonably legible to those in general likely to be entitled to such concessions.

**Newidiadau mewn gwasanaethau a phrisiau tocynnau**

**17**. Gellir gwneud darpariaeth i weithredydd roi gwybod i'r awdurdod am unrhyw newidiadau yn y gwasanaethau y mae'r gweithredydd hwnnw'n eu gweithredu ac y darperir consesiynau teithio gorfodol arnynt, ac o unrhyw newidiadau yn y tabl prisiau sy'n berthnasol i'r gwasanaethau hynny, yn y naill achos a'r llall pan fydd y newid yn effeithiol neu heb fod yn hwyrach na saith diwrnod wedyn.

**Changes in services and fares**

**17**. Provision may be made for an operator to inform the authority of any changes in the services operated by that operator on which mandatory travel concessions are provided, and of any changes in the fares table applicable to those services, in either case when the change takes effect or not later than 7 days thereafter.

**Cyflogi asiantau gweinyddu**

**18**. Ni chaiff awdurdod gyflogi unrhyw berson sy'n ddeiliad trwydded gweithredydd PSV yn asiant iddo at ddibenion gweinyddu trefniadau ad-daliadau.

**Employment of administering agents**

**18**. An authority may not employ as its agent for the purposes of the administration of reimbursement arrangements any person who is a holder of a PSV operator's licence.

**Cyfyngiad cyffredinol ar ymyrryd â dull darparu gwasanaethau**

**19**. Ac eithrio lle gwneir hynny i roi ei heffaith i'r Rhan hon o'r Rheoliadau hyn, ni all y trefniadau gynnwys darpariaethau y byddai cydymffurfio â hwy yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredydd newid y dull sydd ganddo ar gyfer darparu'r gwasanaethau y darperir consesiynau arnynt.

**General restriction on interference with the manner of providing services**

**19**. Except where done to give effect to this Part of these Regulations, arrangements may not include provisions compliance with which would require the operator to alter the manner in which the operator provides the services on which concessions are provided.

Rhan III

CEISIADAU I'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL

Part III

APPLICATIONS TO THE NATIONAL ASSEMBLY

**Cymhwyso rheoliadau 21 i 32**

**20**. Mae rheoliadau 21 i 32 yn gymwys i geisiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 150(3) o'r Ddeddf (newid trefniadau taliadau ad-dalu arfaethedig neu amrywiadau arfaethedig i drefniadau ad-dalu).

**Application of regulations 21 to 32**

**20**. Regulations 21 to 32 apply to applications to the National Assembly under section 150(3) of the Act (modification of proposed reimbursement arrangements or proposed variations to reimbursement arrangements).

**Cynnwys hysbysiadau**

**21**. Rhaid i hysbysiadau a gyflwynir neu a roddir o dan adran 150(4) neu (5) o'r Ddeddf gynnwys y manylion canlynol:

(i) enw a chyfeiriad gweithredydd y gwasanaeth neu'r gwasanaethau y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hwy;

(ii) enw a chyfeiriad yr awdurdod;

(iii) rhif neu enw y llwybr (os oes un) a'r rhif cofrestru a roddwyd gan gomisiynydd traffig pob gwasanaeth y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef;

**Content of notices**

**21**. Notices served or given under section 150(4) or (5) of the Act must contain the following particulars:

(i) the name and address of the operator of the service or services to which the notice relates;

(ii) the name and address of the authority;

(iii) the route number or name (if any) and the registration number allocated by the traffic commissioner of each service to which the notice relates;

(iv) y ddarpariaeth yn y Ddeddf y rhoddir yr hysbysiad odani.

(iv) the provision of the Act under which the notice is given.

**Cyflwyno hysbysiadau**

**22**.-(1) Gall hysbysiadau y mae'n ofynnol eu cyflwyno neu eu rhoi o dan adran 150(4) neu (5) o'r Ddeddf gael eu traddodi â llaw neu eu hanfon drwy bost cofrestredig wedi'i dalu ymlaen llaw neu drwy ddosbarthiad cofnodedig.

(2) Bernir bod unrhyw hysbysiad a anfonir drwy'r post yn unol â pharagraff (1) o'r rheoliad hwn wedi dod i law pan ddylai gael ei ddosbarthu i'r cyfeiriad yr anfonwyd ef iddo yng nghwrs priodol y post.

**Service of notices**

**22.**-(1) Notices required to be served or given under section 150(4) or (5) of the Act may be delivered by hand or sent by prepaid registered or recorded delivery post.

(2) Any notice sent by post in accordance with paragraph (1) of this regulation is to be deemed to have been received when it ought in due course of post to be delivered at the address to which it is sent.

**Datganiad ysgrifenedig y ceisydd**

**23**.-(1) Gyda'r hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi o dan adran 150(4) o'r Ddeddf, rhaid i'r ceisydd gyflwyno datganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol o'r canlynol -

(a) y rhesymau dros y cais; a

(b) unrhyw resymau neu faterion eraill y mae'r person hwnnw'n credu eu bod yn berthnasol i'r cais.

(2) Ar yr un pryd ag y bydd yn cyflwyno'r hysbysiad a'r datganiad uchod i'r Cynulliad Cenedlaethol, rhaid i'r ceisydd anfon copi o'r hysbysiad hwnnw ac o'r datganiad hwnnw i'r awdurdod.

**Applicant's written statement**

**23**.-(1) The applicant must, with the notice required to be given under section 150(4) of the Act, submit to the National Assembly a written statement of-

(a) the grounds for the application; and

(b) any reasons or other matters which that person considers to be relevant to the application.

(2) The applicant must, at the same time as it submits the above-mentioned notice and statement to the National Assembly, send a copy of that notice and of that statement to the authority.

**Datganiad ysgrifenedig y ceisydd**

**24**.-(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 30, rhaid i'r awdurdod gyflwyno datganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol o unrhyw faterion y mae'n credu eu bod yn berthnasol i'r cais.

(2) Ar yr un pryd ag y mae'n cyflwyno'r datganiad i'r Cynulliad Cenedlaethol, rhaid i'r awdurdod anfon copi ohono at y ceisydd.

(3) Oni bai bod y Cynulliad Cenedlaethol yn caniatáu fel arall, rhaid i unrhyw ddatganiad o'r fath gael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol a'i anfon at y ceisydd o fewn 28 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad y mae'r ceisydd yn ei roi i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(4) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi gwybod i'r ceisydd ar unwaith os yw'n caniatáu cyfnod hirach i'r awdurdod gyflwyno'i ddatganiad.

**Authority's written statement**

**24**.-(1) Subject to regulation 30, the authority must submit to the National Assembly a written statement of any matters which it considers to be relevant to the application.

(2) At the same time as it submits the statement to the National Assembly, the authority must send a copy of it to the applicant.

(3) Unless otherwise allowed by the National Assembly, any such statement must be submitted to the National Assembly and sent to the applicant within 28 days of the date of the notice given to the National Assembly by the applicant.

(4) The National Assembly must inform the applicant forthwith if it allows the authority a longer period for the submission of its statement.

**Datganiadau ysgrifenedig a dogfennau pellach**

**25.**-(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 30, ar ôl i'r awdurdod gyflwyno'u datganiad, caiff y Cynulliad Cenedlaethol ofyn i'r ceisydd neu'r awdurdod, neu'r ddau, gyflwyno unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig a dogfennau pellach iddo fel y bydd yn cyfarwyddo.

(2) Rhaid i unrhyw ddatganiadau a dogfennau

**Further written statements and documents**

**25**.-(1) Subject to regulation 30, the National Assembly may, after the authority have submitted their statement, request the applicant or the authority, or both of them, to submit to it such further written statements and documents as it may direct.

(2) Any such further statements and documents must

pellach o'r fath gael eu cyflwyno o fewn unrhyw amser y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei gyfarwyddo, ond, oni bai bod y ceisydd a'r awdurdod yn cytuno fel arall, rhaid i'r amser hwnnw beidio â bod yn llai na 14 diwrnod yn dechrau â dyddiad cais y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Rhaid i'r ceisydd neu'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) sy'n cyflwyno unrhyw ddatganiad neu ddogfen bellach i'r Cynulliad Cenedlaethol anfon copi ar yr un pryd i'r awdurdod neu at y ceisydd (fel y bo'n briodol).

**Gwrandawiadau ac ymddangosiadau**

**26.**-(1) Ar ôl i'r datganiad ysgrifenedig neu'r ddogfen olaf y mae eu hangen o dan reoliadau 23 i 25 gael eu cyflwyno, caiff y Cynulliad Cenedlaethol wahodd y ceisydd a'r awdurdod i ymddangos gerbron person a benodir ganddo.

(2) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi penodi person yn unol â rheoliad 32 i benderfynu ar y cais ar ei ran, y person hwnnw fydd y person y gwahoddir y ceisydd a'r awdurdod i ymddangos ger ei fron.

(3) Rhaid i'r gwrandawiad yn unol â gwahoddiad gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan y rheoliad hwn gael ei gynnal heb fod yn llai na 14 diwrnod ar ôl dyddiad y gwahoddiad hwnnw (neu, os rhoddir gwahoddiadau ar ddyddiadau gwahanol, ar ôl dyddiad yr ail wahoddiad neu'r gwahoddiad olaf).

(4) Caiff y ceisydd ymddangos yn bersonol neu gael ei gynrychioli gan gwnsler, cyfreithiwr neu unrhyw berson arall.

(5) Caiff yr awdurdod ymddangos drwy gyfrwng unrhyw swyddog neu berson arall sydd wedi'i benodi at y diben, neu drwy gyfrwng cwnsler, neu gyfreithiwr.

**Methiannau wth gyflwyno datganiadau neu ddogfennau neu wrth ymddangos**

**27.** Os yw'r ceisydd neu'r awdurdod yn methu -

(a) â thraddodi unrhyw ddatganiad neu ddogfennau o fewn yr amser a bennir yn y Rheoliadau hyn neu a gyfarwyddir gan y Cynulliad Cenedlaethol; neu

(b) ag ymddangos gerbron person a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn ymateb i wahoddiad gan y Cynulliad Cenedlaethol;

er hynny caiff y Cynulliad Cenedlaethol fwrw ymlaen i benderfynu ar y cais.

**Y weithdrefn mewn gwrandawiadau**

**28.**-(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 27, mewn unrhyw wrandawiad rhaid i'r person a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol roi cyfle i'r ceisydd a'r awdurdod -

be submitted within such time as the National Assembly may direct, but such time must not, unless the applicant and the authority otherwise agree, be less than 14 days commencing with the date of the National Assembly's request.

(3) The applicant or the authority (as the case may be) submitting any further statement or document to the National Assembly must at the same time send a copy of it to (as appropriate) the authority or the applicant.

**Hearings and appearances**

**26.**-(1) The National Assembly may, after the submission of the last written statement or document required under regulations 23 to 25, invite the applicant and the authority to appear before a person appointed by it.

(2) Where the National Assembly has in accordance with regulation 32 appointed a person to determine the application on its behalf, that person is to be the person before whom the applicant and the authority are to be invited to appear.

(3) The hearing pursuant to an invitation from the National Assembly under this regulation must take place not less than 14 days after the date of that invitation (or, if invitations were given on separate dates, the date of the second or last of those invitations).

(4) The applicant may appear in person or be represented by counsel, solicitor or any other person.

(5) The authority may appear by any officer or other person appointed for that purpose, or by counsel, or by solicitor.

**Defaults in delivery of statements or documents or in appearing**

**27.** If the applicant or the authority fails-

(a) to deliver any statement or documents within the time specified in these Regulations or directed by the National Assembly; or

(b) to appear before a person appointed by the National Assembly in response to an invitation from the National Assembly;

the National Assembly may nevertheless proceed with the determination of the application.

**Procedure at hearings**

**28.**-(1) Subject to regulation 27, at any hearing the person appointed by the National Assembly must give to the applicant and the authority an opportunity-

(a) annerch y person a benodir ac ymhelaethu ar y datganiad ysgrifenedig a gyflwynwyd o dan y Rhan hon o'r Rheoliadau hyn, rhoi tystiolaeth, galw tystion, a holi unrhyw berson sy'n rhoi tystiolaeth gerbron y person a benodir; a

(b) cyflwyno sylwadau ar y dystiolaeth (os oes tystiolaeth) ac ar bwnc y cais yn gyffredinol ond, os caiff tystiolaeth ei chymryd, rhaid peidio â rhoi'r cyfle hwnnw cyn gorffen cymryd y dystiolaeth.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol neu unrhyw berson a benodir ganddo i gynnal gwrandawiad o dan y rheoliad hwn gymryd yn dystiolaeth unrhyw ddogfen neu wybodaeth er na fyddai'r ddogfen neu'r wybodaeth honno yn dderbyniol mewn llys barn.

(3) Ac eithrio fel y darperir fel arall yn y Rhan hon o'r Rheoliadau hyn, bydd y weithdrefn mewn unrhyw wrandawiad yn cyd-fynd â'r hyn y bydd y person a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ei bennu yn ôl disgresiwn y person hwnnw.

**Dyfarniadau gan y Cynulliad Cenedlaethol**

**29**.-(1) Ar ôl ystyried adroddiad y person, os oes un, a benodir ganddo yn unol â rheoliad 26(1), bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu ar y cais a chofnodir ei benderfyniad mewn dogfen a lofnodir ar ran y Cynulliad Cenedlaethol a'i dyddio pan gaiff ei llofnodi.

(2) Rhaid i'r ddogfen honno gynnwys crynodeb o'r rhesymau dros benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Rhaid anfon copi o'r ddogfen sy'n cofnodi penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol at y ceisydd ac i'r awdurdod.

(4) Trinnir y penderfyniad fel pe bai wedi'i wneud ar y dyddiad yr anfonir y copi o'r ddogfen uchod at y ceisydd.

**Cyfyngu ar ddefnyddio gwybodaeth mewn cysylltiad â gwrandawiadau**

**30**.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i wybodaeth sy'n ymwneud ag ad-dalu i weithredydd perthnasol y mae awdurdod yn ei chael oddi wrth y gweithredydd hwnnw yn unol â threfniadau ad-dalu.

(2) Yn y rheoliad hwn ystyr "gweithredydd perthnasol" yw gweithredydd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus y ceir hawl arnynt i gael consesiynau teithio gorfodol.

(3) Er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth yn rheoliadau 24 i 28, rhaid i unrhyw ddatganiad neu ddogfen a gyflwynir neu a anfonir gan awdurdod, ac unrhyw ddatganiad a wneir ar ran awdurdod sy'n ymddangos gerbron person a benodir gan y Cynulliad

(a) to address the person appointed and to amplify the written statement submitted under this Part of these Regulations, to give evidence, to call witnesses, and to put questions to any person giving evidence before the person appointed; and

(b) to make representations on the evidence (if any) and on the subject matter of the application generally but, where evidence is taken, such opportunity must not be given before the completion of the taking of the evidence.

(2) The National Assembly or any person appointed by it to conduct a hearing under this regulation may receive in evidence any document or information notwithstanding that such document or information would be inadmissible in a court of law.

(3) Except as otherwise provided in this Part of these Regulations, the procedure at any hearing is to be such as the person appointed by the National Assembly may in that person's discretion determine.

**Decision by the National Assembly**

**29**.-(1) The National Assembly, having considered the report of the person, if any, appointed by it pursuant to regulation 26(1) will determine the application and its decision must be recorded in a document signed on behalf of the National Assembly and dated when so signed.

(2) Such document must contain a summary of the reasons for the decision of the National Assembly.

(3) A copy of the document recording the decision of the National Assembly must be sent to the applicant and the authority.

(4) The decision is to be be treated as having been made on the date on which the copy of the above-mentioned document is sent to the applicant.

**Restrictions on use of information in connection with hearings**

**30**.-(1) This regulation applies to information relating to the reimbursement of a relevant operator and received by an authority from that operator pursuant to reimbursement arrangements.

(2) In this regulation "relevant operator" means an operator of public transport services on which there is an entitlement to mandatory travel concessions.

(3) Notwithstanding any provision of regulations 24 to 28, any statement or document submitted or sent by an authority, and any statement made on behalf of an authority appearing before a person appointed by the National Assembly, must not contain any information

Cenedlaethol, beidio â chynnwys dim gwybodaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi oni bai bod y gweithredydd perthnasol wedi rhoi ei gydsyniad ysgrifenedig iddi gael ei chynnwys.

to which this regulation applies unless the relevant operator has given its consent in writing to such inclusion.

**Ceisiadau gwacsaw neu flinderus**

**31**. Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn barnu bod cais yn un gwacsaw neu flinderus, gall y Cynulliad Cenedlaethol, ar ôl rhoi cyfle i'r ceisydd wneud sylwadau ysgrifenedig, wrthod y cais yn ddioed a bydd darpariaethau rheoliad 29 yn gymwys i benderfyniad felly.

**Frivolous or vexatious applications**

**31**. If it appears to the National Assembly that an application is frivolous or vexatious it may, after giving the applicant an opportunity of making representations in writing, decide to dismiss the application forthwith and the provisions of regulation 29 is to apply to such decision.

**Cymhwyso rheoliadau 23 i 25, 27 i 29 a 31 at enwebai'r Cynulliad Cendlaethol**

**32**.-(1) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn penodi person yn unol ag adran 150(6)(b) o'r Ddeddf i benderfynu ar gais ar ei ran, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig o'r penodiad i'r ceisydd ac i'r awdurdod.

(2) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn penodi person i benderfynu ar gais ar ei ran, rhaid darllen cyfeiriadau yn rheoliadau 23 i 25 a rheoliadau 27 i 29 at y Cynulliad Cenedlaethol fel cyfeiriadau at y person a benodir felly o ddyddiad y penodi ymlaen.

**Application of regulations 23 to 25, 27 to 29 and 31 to nominee of the National Assembly**

**32.**-(1) If the National Assembly appoints a person in accordance with section 150(6)(b) of the Act to determine an application on its behalf, it must give notice in writing of the appointment to the applicant and the authority.

(2) If the National Assembly appoints a person to determine an application on its behalf, references in regulations 23 to 25 and regulations 27 to 29 to the National Assembly are to be read, with effect from the date of the appointment, as references to the person so appointed.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

22 Tachwedd 2001

22 November 2001

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38

(a) 1998 c.38

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2001 Rhif 3764 (Cy.312)

## 2001 No. 3764 (W.312)

# TRAFNIDIAETH, CYMRU

# TRANSPORT, WALES

Rheoliadau Consesiynau Teithio Gorfodol (Trefniadau Ad-dalu) (Cymru) 2001

The Mandatory Travel Concessions (Reimbursement Arrangements) (Wales) Regulations 2001

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090381-1

9 780110 903811

**£X.XX**

T409/12/01 ON